# Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru â thema a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2024

**Aelodau o Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC) a oedd yn bresennol:**

- Dr Rhian Hayward, MBE, Cadeirydd
- Dr Philip Hollington
- Dr John Williams
- Dave Holland
- Georgia Taylor
- Helen Taylor
- Jessica Williams

**Swyddogion yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a oedd yn bresennol:**

- Anjali Juneja – Cyfarwyddwr Materion Rhyngwladol a'r Deyrnas Unedig
- Siân Bowsley – Cyfarwyddwr yr ASB yng Nghymru
- Sioned Fidler – Pennaeth Cyfathrebu, y Gymraeg a Chymorth Busnes
- Lucy Edwards – Uwch-reolwr Busnes
- Owen Lewis – Pennaeth Polisi Rheoleiddio a'r Bartneriaeth ag Awdurdodau Lleol
- Jonathan Davies – Pennaeth Polisi Safonau a Diogelu Defnyddwyr

**Cyflwynwyr:**

- Ellis Roberts, Rheolwr Ymgysylltu â Busnesau ar gyfer Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir (SRS)
- Karen McCloskey, Pennaeth yr Uned Safonau Cyflenwi
- Sarah Aza, Pennaeth Gwaith Gweithredu Awdurdodau Lleol, yr ASB yng Nghymru
- Lucas Williams, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Kay Ledward, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

- Carmel Lynskey, Pennaeth y Rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau
- Micah Mcguire, Arweinydd Cyflawni Prosiectau

**Arsylwyr:**

Cynrychiolwyr o’r canlynol:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cyngor Bwrdeistref St Helens
- NCASS (Cymdeithas Genedlaethol yr Arlwywyr)

## 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a chofnodion y cyfarfod diwethaf

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod. Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod mis Gorffennaf 2024.

## 2. Datgan buddiannau

2.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 3. Archwilio’r Maes Rheoleiddio

3.1 **Ellis Roberts, Rheolwr Ymgysylltu â Busnesau ar gyfer Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir (SRS)** a **Chadeirydd Grŵp Awdurdodau Sylfaenol Cymru** – Rhoddodd Ellis drosolwg o Bartneriaethau Awdurdodau Sylfaenol o safbwynt yr awdurdod lleol (ALl), ac eglurodd fod y grŵp wedi gweld cynnydd cyson yn nifer y busnesau sy’n ceisio partneriaethau fel awdurdodau sylfaenol gydag ALlau Cymru oherwydd lefel y gwasanaeth y gallant ei gynnig ar ystod o faterion rheoleiddio, gan gynnwys hylendid bwyd, diogelu defnyddwyr, safonau masnach a diogelwch cynhyrchion. Esboniodd Ellis fod Grŵp Awdurdodau Sylfaenol Cymru yn cyfarfod bob chwarter a bod hyn yn gyfle i rannu gwybodaeth

ac arferion gorau rhwng ALlau sy’n darparu gwasanaethau ar gyfer awdurdodau sylfaenol, yn ogystal â’r rhai nad ydynt yn gwneud hynny ac sydd â diddordeb posib mewn mentro i’r maes hwn.

3.1.2 Rhoddodd **Karen McCloskey, Pennaeth yr Uned Safonau Cyflenwi yn yr ASB,** drosolwg o rôl yr ASB fel y Rheoleiddiwr Cenedlaethol o fewn cynllun yr awdurdodau sylfaenol, ac eglurodd y gellid gofyn i’r ASB fod yn Rheoleiddiwr Cynhaliol hefyd.

3.1.3 Cafwyd cwestiynau gan y pwyllgor ynghylch adnoddau ALlau ac a yw hyn yn effeithio ar allu ALlau yng Nghymru i gynnig gwasanaethau ar gyfer awdurdodau sylfaenol. Fodd bynnag, eglurodd cynrychiolwyr o’r ALlau a oedd yn bresennol, er bod pwysau o ran gweithlu sy’n heneiddio, fod digon o adnoddau i gyflawni pob agwedd ar y gwaith cyflawni a bod y sefyllfa o ran adnoddau ALlau yn well yng Nghymru nag yn Lloegr.

3.1.4 Nododd y pwyllgor ei bod yn braf clywed am y mesurau sydd ar waith i hyfforddi a chadw mwy o swyddogion ALlau drwy brentisiaethau a llwybrau eraill, ond maent yn ymwybodol bod mwy o waith i’w wneud yn y maes hwn o ran denu pobl iau i’r swyddi hyn.

3.1.5 Cafwyd cais hefyd gan y pwyllgor i weld data mewn perthynas â busnesau Cymru a’r perthnasoedd sydd gan ALlau Cymru ag awdurdodau sylfaenol – pa fathau o fusnesau ac ym mha sector, hynny yw manwerthu, gweithgynhyrchu, lletygarwch.

3.2 Rhoddodd **Sarah Aza, Pennaeth Gwaith Gweithredu Awdurdodau Lleol, yr ASB yng Nghymru,** rywfaint o gefndir i’r gwaith hwn gan esbonio bod Ipsos Mori, yn 2017, wedi cyhoeddi adroddiad yn cyflwyno ei ymchwil ar foderneiddio’r rhaglen ymyriadau risg. Roedd yr ymchwil yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth, cyfweliadau â rheoleiddwyr rhyngwladol a rheoleiddwyr yn y DU nad ydynt yn ymwneud â bwyd, cyfweliadau â rhanddeiliaid ac ymweliadau ag ALlau. Dangosodd yr ymchwil fod angen addasu’r cynllun Safonau Bwyd. Arweiniodd hyn at adolygiad gan yr ASB o waith gweithredu safonau bwyd ledled Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr yn 2018, ac yna at ddatblygu model newydd arfaethedig yn 2019. Cafodd y model ei roi ar brawf yng Ngogledd Iwerddon a

Lloegr yn ystod 2021, yna fe'i gwerthuswyd ac ymgynghorwyd arno yn 2022, gyda'r Codau Ymarfer diwygiedig yn cael eu cyhoeddi yng Ngogledd Iwerddon a Lloegr yn 2023. Eglurodd Sarah y bu'n rhaid gohirio'r cynllun peilot yng Nghymru oherwydd bod adnoddau'r ALlau yn cael eu dargyfeirio i ymateb i'r pandemig. Yng Nghymru, cynhaliwyd y cynllun peilot ar gyfer y model gweithredu safonau bwyd am 6 mis o fis Medi 2023 i fis Chwefror 2024 ac roedd yn cynnwys dau ALl fel grŵp peilot a dau ALl fel grŵp rheolydd. Tynnodd Sarah sylw at y ffaith bod y canlyniadau'n gadarnhaol, a bod y camau nesaf yn dibynnu ar ganlyniad yr adroddiad gwerthuso a allai arwain at geisio cytundeb gan weinidogion i ddiwygio'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd presennol yng Nghymru.

3.2.1 Rhannodd **Lucas Williams, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot** a **Kay Leward, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** eu profiadau o'r cynllun peilot, gyda'r ddau'n cyfaddef eu bod yn bryderus ar y dechrau ond eu bod wedi cael profiadau cadarnhaol yn ystod y cynllun peilot. Gwnaethon nhw siarad am y ffaith bod ganddyn nhw, o dan y cynllun peilot, fwy o hyblygrwydd i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithiol a dywedodd y ddau ei fod yn gam i'r cyfeiriad cywir.

3.3 Rhoddodd **Carmel Lynskey, Pennaeth y Rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau** a **Micah Mcguire, Arweinydd Cyflawni Prosiectau,** gyflwyniad ar y camau nesaf ar gyfer Rheoleiddio ar Lefel Genedlaethol. Gwnaethant nodi mai amcanion y sesiwn oedd dangos ymrwymiad yr ASB i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol er mwyn helpu i ddatblygu camau gweithredu nesaf yr ASB, a sicrhau bod y camau nesaf hynny'n cael eu hesbonio'n glir. Gwnaethant hefyd dynnu sylw at y ffaith eu bod yn awyddus i wrando ar bryderon rhanddeiliaid ynghylch y rhaglen er mwyn sefydlu tir cyffredin o ran gwneud y system fwyd yn ddiogel ac, yn y pen draw, ddiogelu iechyd y cyhoedd.

3.3.1 Dywedodd Carmel fod yr ASB wedi ymgysylltu â gweithgor yr Awdurdodau Sylfaenol yng Nghymru yn 2022 ynghylch ein meddyliau cysyniadol cynnar. Wrth sgwrsio â Chyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd (Cymru), cytunwyd nad oedd hwn yn brosiect blaenoriaeth i Gymru, ac y byddai'r ASB yn adrodd yn ôl ar y canfyddiadau ar ôl y treial. Yn 2023, gwnaethom gydweithio â Gweinidog Cymru ar gytundeb i sicrhau'r canlynol:

- Mae cynigion yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gallu dangos eu bod yn cyflawni gwelliannau i reoleiddio busnesau bwyd yng Nghymru a ffyrdd mwy cydweithredol, effeithiol ac effeithlon o weithio rhwng yr asiantaethau partner.
- Caiff y safonau uchel cyfredol ar gyfer diogelwch bwyd neu hyder defnyddwyr eu diogelu.
- Cynhelir uniondeb a hyder defnyddwyr yn y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.
- Mae canlyniadau anfwriadol un system reoleiddio ar un arall yn cael eu nodi a'u lliniaru.
- Ceisir cysondeb ledled y DU lle bo'n ymarferol, a lle nad yw'n ymarferol gwneud hynny, cymerir dull sy'n briodol i Gymru. *Mae trafodaethau ar y gweill gyda Gogledd Iwerddon a'r Alban.*

3.3.2 Yna, rhoddodd Micah drosolwg o'r treial prawf-o-gysyniad yn Lloegr, gan egluro'r pedair elfen allweddol: fframwaith sicrwydd, data, rheoli perthnasoedd a dilysu, ac yna manylodd ar y camau nesaf.

3.3.3 Cafwyd cwestiynau gan y pwyllgor ynghylch uniondeb y data a'r effaith ar asesu risg ac arweiniodd hyn at drafodaethau ynghylch tueddiadau data. Gofynnwyd hefyd a oedd unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i ehangu cwmpas y rhaglen i gynnwys safonau bwyd hefyd. Nododd y pwyllgor fod hwn yn faes gwaith heriol, a bod posibiliadau gwych gyda data y gallwn fanteisio arnynt i gael rhywfaint o effeithlonrwydd yn y system, a hynny heb golli'r sicrwydd lleol y mae swyddogion ac arolygiadau Iechyd yr Amgylchedd yn ei ddarparu.

3.3.4 Dywedodd cynrychiolwyr yr ALlau eu bod yn awyddus i gydweithio a chyd-gynhyrchu gan fod diogelu iechyd y cyhoedd yn allweddol. Gwnaethant rannu pryderon ynghylch cynnal neu wella'r lefelau presennol o ran diogelu iechyd y cyhoedd ac y dylai'r wyddoniaeth a'r dystiolaeth fod yn agwedd allweddol ar y gwaith hwn yn y dyfodol. Gwnaethant hefyd fynegi eu bod yn awyddus i archwilio trwydded i fasnachu neu gyfundrefn drwyddedu ar gyfer busnesau bwyd.

3.3.5 Nododd Carmel ac Anjali fod y weledigaeth hirdymor ar gyfer y rhaglen hon bellach wedi'i gohirio wrth i ragor o waith ymgysylltu fynd rhagddo, ac wrth i waith fynd rhagddo ar adeiladu ar wyddoniaeth a thystiolaeth.

## 4. Diweddariad gan y Cadeirydd

4.1 Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar ar gyfarfod y Bwrdd ym mis Medi yn Peterborough a'i hymweliad â chyfleuster pecynnu ffrwythau Morrisons fel rhan o raglen y Bwrdd. Rhoddodd y Cadeirydd wybod am ddwy swydd wag sy'n codi ar Fwrdd yr ASB.

## 5. Adroddiad y Cyfarwyddwr (Papur 24/10/02)

5.1 Rhoddodd Cyfarwyddwr UKIA ddiweddariad llafar ar yr adroddiad a oedd yn cynnwys diweddariadau ar y llywodraeth newydd yn San Steffan ac ymgysylltiad cadarnhaol â'r Gweinidog Bryant yng Nghymru. Cyflwynwyd Siân Bowsley hefyd fel Cyfarwyddwr newydd yr ASB yng Nghymru.

## 6. Unrhyw fater arall

6.1 Nododd yr aelodau y byddai'r cyfarfod â thema nesaf yn cael ei gynnal ar 4 Chwefror 2025.

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.